Crynodeb

Adolygiad gwybodaeth 5: Meithrin llwyddiant

Archwiliad o'r llenyddiaeth ymchwil ar ofal maeth

social care institute for excellence

Tachwedd 2003

Mae dros hanner yr holl blant sy'n derbyn gofal yng ngwledydd Prydain yng ngofal gofalwyr maeth. Edrycha'r adolygiad hwn ar yr hyn y mae gwaith ymchwil wedi'i ddarganfod am ddeilliannau, neu ganlyniadau gofal maeth i'r llu o blant a phobl ifanc sy'n cael profiad ohono.

Bu'r awduron – o Brifysgolion Nottingham, Caerefrog, Caerdydd a Dwyrain Anglia – hefyd yn gweithio gyda thri grŵp ymgynghorol o ofalwyr maeth a phobl ifanc trwy gydol yr astudiaeth, a'u dyfyniadau a geir yma.

"Mae e fel, gofal maeth, … mae'n gweithio'n wahanol i wahanol bobl. Mae'n gweithio'n dda i rai pobl, ond nid i eraill." (person ifanc)

- Mae'r adolygiad ymchwil yn canolbwyntio'n bennaf ar y canlyniadau y mae gofal maeth yn eu creu i blant a phobl ifanc maeth – mewn geiriau eraill, yr effeithiau ar eu bywydau na fyddent wedi digwydd hebddo.
- I Iawer o blant a phobl ifanc mewn gofal maeth hirdymor, mae byw gyda theulu maeth yn gallu bod yn well na'r dewis amlwg arall, sef aros gartref.
- Yn bwysig iawn, ac er gwaethaf anawsterau cychwynnol wrth adael gofal, aiff y mwyafrif o blant maeth ymlaen i fyw bywydau hapus, iach a chynhyrchiol fel oedolion.
- Mae'r rhan fwyaf o blant maeth yn bositif am y gofal a dderbyniant.
- Nid yw'r holl blant maeth yn dweud eu bod eisiau'r un pethau, ond mae ganddynt anghenion cyffredin, i gael bywyd teuluol normal, anogaeth, parch, gwybodaeth sylfaenol am yr hyn y mae ganddynt yr hawl i'w dderbyn, addysg dda a'r dewis i gadw cysylltiad â'u teuluoedd eu hunain.
- Mae'r rhan fwyaf hefyd eisiau llais am eu cyfnod mewn gofal ac am yr hyn yr hoffent ei gael allan ohono.
- Mae pa mor fodlon ydynt yn dibynnu ar:

  > y gofal a gânt gan eu teuluoedd maeth;
  > eu perthynas gyda'u teuluoedd naturiol eu hunain;
  > cydbwysedd eu perthynas gyda'u teuluoedd maeth a'u teuluoedd eu hunain;
  > y rhesymau pam eu bod mewn gofal;
  > cael byw bywydau mewn gofal sy'n ddibynadwy a sefydlog; a
  > gallu byw bywyd cyffredin.

"Pe baech chi'n gwneud hyn am yr arian, fe fyddech chi'n rhoi'r gorau iddi! Gallwch wneud swyddi sy'n golygu eich bod yn cyrraedd gartref ac yn gadael y cyfan ar eich ôl. Ond gyda hyn – mae'n waith 24 awr y dydd." (gofalwr maeth)

- Yr allwedd i ofal maeth llwyddiannus yw recriwtio, hyfforddi a chynnal gofalwyr maeth da.
- Lledu'r gair, cynnwys gofalwyr maeth mewn ymgyrchoedd recriwtio, cymhellion ariannol bychain a chanolbwyntio ar grwpiau penodol (o fenywod du ac o leiafrifoedd ethnig er enghraifft) sy'n gweithio orau wrth recriwtio gofalwyr maeth.
- Gan edrych ar farn plant ac ymchwil arall am ganlyniadau maethu gyda'i gilydd, awgryma'r adolygiad y dylai fod gan awdurdodau lleol:

  > system eglur ar gyfer cael adborth gan blant, teuluoedd biolegol, cynhalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol am y gwasanaeth a ddarparant, a gweithredu ar hynny;
  > cynnig dewis digonol o leoliadau a gwasanaeth amrywiol a hyblyg, megis helpu pobl ifanc i aros gyda'u gofalwyr wedi iddynt ddod yn 18 oed; a/neu ddatblygu gwasanaethau gofal maeth sy'n cynnal y teulu cyfan;
  > datblygu cynlluniau gyda'r plant, cynlluniau sy'n cydnabod fod eu teuluoedd biolegol yn allweddol ym mywydau plant;
  > delio'n effeithiol ag anghenion plant mewn gofal maeth, rhoi sylw manwl i feysydd addysg, ymddygiad a dealltwriaeth y plentyn o'i hanes ef/hi ei hun.

"Mewn cartref plant, mae e fel, staff i mewn ac allan, yn tydy?… Ac mae'n well gen i fod mewn cartref maeth, oherwydd mae gennych chi ddau riant yno ichi 24/7." (person ifanc)

Cyflwyniad

Ar unrhyw un diwrnod, mae 75,000 o blant yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol yng ngwledydd Prydain – ac mae mwy na'u hanner mewn gofal maeth.

Bydd yr adolygiad hwn o ddiddordeb i lunwyr polisïau ac ymarferwyr lleol, ac i bobl sy'n cynllunio, comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil yn y maes hwn. Mae'n trafod y deilliannau i blant sy'n ganlyniadau uniongyrchol o fod mewn gofal maeth. Hoelia'r adolygiad ei sylw ar negeseuon ar gyfer meysydd polisi ac arfer, gan ofyn sut y gwyddom a yw deilliant neu ganlyniad gofal maeth yn cael ei achosi ganddo mewn gwirionedd.

Mae'r crynodeb hwn yn ymdrin â thri maes cyffredinol:

1. **Cefndir:** sut blant yw plant maeth? Pam maen nhw'n cael eu maethu? Sut fywydau maen nhw'n gael? Beth mae disgwyl i ofal maeth ei wneud iddyn nhw? Sut ddylen ni asesu ei ddeilliannau?
2. **Effaith gyffredinol gofal maeth:** a yw plant ar gyfartaledd yn gwneud yn well mewn gofal maeth nac y byddent hebddo?
3. **Gwahaniaethau mewn gofal maeth:** os yw plentyn neu berson ifanc yn cael ei faethu, beth sy'n arwain at ddeilliant gwell neu waeth?

Cefndir

Mae plant maeth yn cael bywydau cynnar anodd. Mae ganddynt lawer o anghenion, gall eu perfformiad addysgol fod yn wael, mae eu plentyndod mewn gofal maeth ac allan ohono yn aml yn ansefydlog. Pan yn oedolion maent yn aml mewn mwy o berygl nac eraill o wynebu nifer fawr o wahanol anawsterau. Arweiniodd y 'ffeithiau' hyn rai pobl i gasglu nad yw'r wladwriaeth yn rhiant digonol. Mae'r casgliad hwnnw, fodd bynnag, yn anwybyddu dau bosibilrwydd. Yn gyntaf, mae gofal maeth yn gallu bod yn well na'r dewis amlwg arall – aros gartref. Yn ail, mae'n amlwg fod bywydau plant maeth yn gallu datblygu'n dda. Efallai y gallai hynny fod yn wir i ragor ohonynt.

Mathau o ofal maeth

Mae awdurdodau lleol yn dosbarthu gofal maeth mewn nifer fawr o ffyrdd gwahanol: er enghraifft, gellir defnyddio gofal byrdymor mewn argyfwng, tra bod anghenion plentyn yn cael eu hymchwilio. Mae gofal ar y cyd yn golygu treulio cyfnodau byr, rheolaidd gyda theulu maeth, a gellir defnyddio gofal tymor canol ar gyfer triniaeth, paratoi ar gyfer annibyniaeth neu gael eu mabwysiadu, ac yn y blaen. Golyga gofal maeth hirdymor fod y person ifanc i bob pwrpas yn tyfu i fyny mewn gofal maeth.

Mae'n amlwg fod deilliannau'r gwahanol fathau hyn o ofal maeth yn wahanol: nid oes unrhyw un yn disgwyl i ofal byrdymor ar ei ben ei hun newid addysg, iechyd meddwl nac ymddygiad plentyn; yr hyn a gynigia yn hytrach yw math o gynhaliaeth deuluol ar gyfer teuluoedd mewn angen. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith ymchwil a'r adroddiadau swyddogol ar ddeilliannau gofal maeth wedi canolbwyntio felly ar ofal maeth tymor canol neu hirdymor.

Amser plentyn mewn gofal

Mae plant maeth sy'n cael problemau pan yn oedolion – megis problemau iechyd meddwl – hefyd yn aml wedi cael eu symud rhwng lleoliadau maeth. Ond ni wyddom a yw hyn o ganlyniad i ofal maeth fel y cyfryw, neu ai adlewyrchu eu hanawsterau blaenorol y maent.

Mae plant a phobl ifanc yn dyheu am sefydlogrwydd. I blant maeth, un o nodweddion cyffredin eu cyfnodau mewn gofal yw cael eu symud yn aml. Er hynny, mae rhai symudiadau (er enghraifft, y rhai sy'n digwydd oherwydd methiant lleoliadau hirdymor) yn fwy difrifol nac eraill, mae rhai plant eisiau cael eu symud ac mae rhai symudiadau'n gallu bod yn angenrheidiol i gynnal perthynas gyda gofalwyr, hyd yn oed o bellter.
Dangosodd gwaith ymchwil y gall gofal maeth hirdymor fod yn ddewis posib pwysig i blant. Ond mae'r cyfuniad o blant yn dychwelyd adref, lleoliadau'n methu yn ystod blynyddoedd yr arddegau a'r amharodrwydd i annog plant a phobl ifanc i aros mewn gofal maeth ar ôl cyrraedd 18 oed yn golygu bod cyfnodau maeth gyda'r un gofalwr yn brin.

Bywyd yn oedolion

Yn gyffredinol, awgryma'r dystiolaeth fod y sawl sydd wedi treulio cyfnodau yn y system ofal yn gorfod ymdopi ar eu pennau eu hunain yn llawer iau, a'u bod yn wynebu anawsterau oherwydd unigrwydd, diweithdra, camddefnyddio cyffuriau, problemau iechyd meddwl, dyledion a charcharu. Ond awgryma astudiaethau mwy hirdymor fod llawer o'r rhai sy'n wynebu anawsterau yn union wedi gadael gofal yn llwyddo gydag amser i setlo, a'u bod hyd yn oed yn ail-sefydlu cyswllt cyfeillgar gyda theuluoedd maeth ar ôl problemau gyda'r lleoliad maeth. Mae'n debyg fod llai na thraean yn wynebu anawsterau difrifol hirdymor.

Beth yw effaith cyffredinol gofal maeth?

Mae pobl ifanc yn aml yn cael problemau wrth adael gofal maeth. Ai bai'r gofal maeth ei hun yw hynny? Awgryma'r dystiolaeth ymchwil mai'r ateb tebygol i'r cwestiwn hwnnw yw 'na'. Ymddengys ar y cyfan fod gofal maeth yn fwy diogel ac yn llai tebygol o greu ymddygiad anodd a phroblemau emosiynol na gofal mewn cartrefi plant. Fe'i croesewir gan y rhan fwyaf o'i ddefnyddwyr.

Teimla rhai bod symud plentyn i'r system ofal mewn rhyw ffordd yn fethiant, a gallent ddadlau fod angen mwy o dystiolaeth ar yr hyn y mae gadael eu teulu eu hunain yn ei wneud i ymdeimlad hirdymor plentyn o'i hunaniaeth. Ond mae'r rhan fwyaf o dystiolaeth yn y maes hwn yn awgrymu fel arall.

Beth, ar gyfartaledd, yw effeithiau gwahanol fathau o ofal maeth?

- Mae gofal maeth byrdymor neu ofal maeth seibiannau byr ar y cyfan yn werthfawr ac yn cael eu gwerthfawrogi. Maen nhw'n ffordd bwysig o gynnal y plentyn a'i d/theulu.
- Dylid barnu gwerth lleoliadau hirdymor yn ôl amrywiol feini prawf, gan gynnwys datblygu a chynnal perthnasau personol agos, eu heffeithiau ar ddatblygiad y plentyn, ar ei b/pherfformiad addysgol ac ar ymdeimlad pobl ifanc o'u hunaniaeth.
- Ymhlith casgliadau eraill y gwaith ymchwil mae'r canlynol:

    > cyfran gymharol uchel o blant maeth yn cael eu cam-drin, ond nid yw hynny o reidrwydd yn golygu eu bod yn cael eu cam-drin oherwydd eu bod yn blant maeth;
    > nid yw problemau gyda iechyd meddwl, ymddygiad ac addysg yn cael eu hachosi gan ofal maeth;
    > o ystyried popeth, gall mabwysiadu fod yn well dewis na maethu gan ei fod yn cynnig mwy o sicrwydd emosiynol, ymdeimlad o les ac o berthyn i blant mabwysiedig;
    > gall fod lle i sicrhau cynnydd bychan mewn mabwysiadu trwy fod yn fwy pendant pan fo'r plentyn yn ifanc iawn neu trwy annog rhagor o ofalwyr maeth i fabwysiadu plant hŷn;
    > mae'n well gan bron yr holl blant maeth a holwyd ofal maeth yn hytrach na gofal preswyl.

Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc a fu mewn gofal maeth eisiau'r cyfle i siarad am eu profiad, ac fe ddylid gwrando arnynt. Maen nhw hefyd yn awyddus i gael llais yn y broses o gynllunio a datblygu eu cyfnod mewn gofal. Mae a ydynt yn fodlon ai peidio yn dibynnu ar y math o ofal a gânt gan eu teuluoedd maeth, ac ar eu perthynas gyda'u teuluoedd eu hunain.

Beth sy'n gwneud gwahaniaeth i ddeilliannau mewn gofal maeth?

Mae tystiolaeth fod cryn wahaniaethau rhwng y gwahanol fathau o ddarparwyr gofal maeth o ran y gynhaliaeth sydd ar gael i ofalwyr. Ond nid oes unrhyw dystiolaeth gadarn fod un math o ddarparwr yn fwy effeithiol nac un arall.

Awgryma tystiolaeth o'r Unol Daleithiau ac i raddau llai o wledydd Prydain fod cynlluniau gofal maeth trefnus sy'n cynnwys hyfforddi a chynnig cynhaliaeth ddwys i ofalwyr, gweithwyr cymdeithasol a, phan fo hynny'n briodol, rhieni biolegol, yn gallu cynhyrchu canlyniadau da.

Mae gan blant yr hawl i gael cysylltiad gyda'u teuluoedd biolegol, ond rhaid ystyried pwrpas, natur ac amlder y cysylltiad, ac arfer da yw cael darlun manwl o farn y plant am wahanol aelodau'r teulu, ac asesu unrhyw berygl y mae pob un ohonynt yn ei gynnig.

Mae deilliannau gofal maeth yn cael eu penderfynu gan nifer o wahanol ffactorau, gan gynnwys:

- recriwtio, hyfforddi a chynnal gofalwyr maeth da;
- nodweddion y gofalwr maeth;
- y rhieni naturiol a'u cysylltiad â'r plentyn maeth;
- cynhaliaeth ac ymyriadau gan weithwyr cymdeithasol;
- yr ysgol y mae'r plentyn yn mynd iddi a'i brofiad o fod yno;
- i ba raddau y mae'r plentyn a'r lleoliad yn 'gweddu'.

At y rhestr, priodol yw ychwanegu pa mor dda y cafodd proses y lleoliad ei thrin, megis a oedd yr amgylchiadau'n golygu fod y lleoliad wedi cael ei drefnu ar frys.

Recriwtio, hyfforddi a chynnal gofalwyr maeth da

Yr allwedd i ofal maeth llwyddiannus yw recriwtio, hyfforddi a chynnal gofalwyr maeth da. Mae nifer y gofalwyr maeth sy'n rhoi'r gorau iddi yn weddol isel – 10% neu lai y flwyddyn – sydd yn debygol o adlewyrchu'r lefel uchel o ymrwymiad sydd gan ofalwyr tuag at eu plant maeth a'r boddhad a gânt o ofalu amdanynt. Os yw'r gwaith o recriwtio a chadw gofalwyr yn mynd i lwyddo mae'n debyg y bydd angen:

- strategaethau recriwtio yn seiliedig ar ymateb cyflym ac effeithlon i'r sawl sy'n dangos diddordeb ynghyd â'r cyfle i gyfarfod gofalwyr profiadol;
- cynhaliaeth sydd wedi'i theilwra ar gyfer sefyllfa'r gofalwr, yn seiliedig ar gynhaliaeth reolaidd gan weithwyr cymdeithasol, pecynnau 'proffesiynol' o hyfforddiant perthnasol,

cysylltiad gyda gofalwyr eraill, tâl digonol, gwasanaethau allan o oriau da ac ymatebion sensitif i ddigwyddiadau annifyr.

Mae system ddigonol ar gyfer recriwtio, hyfforddi a chynnal gofalwyr maeth yn debygol o gynnwys:

- ymateb cyflym i ymholiadau;
- defnyddio gofalwyr wrth recriwtio a hyfforddi;
- defnyddio dulliau lledu'r gair ac erthyglau yn y papurau lleol ar gyfer recriwtio;
- delio'n gyflym â thaliadau gweinyddol a thalu;
- ymateb yn gyflym pan fo perthnasau'n chwalu a chynnig cynhaliaeth unigol i'r plentyn a'r gofalwr;
- polisi clir ar y gynhaliaeth ariannol a'r mathau eraill o gynhaliaeth a gynigir i ofalwyr 'teuluol';
- darparu hyfforddiant arbenigol a chynhaliaeth ddwys i ofalwyr maeth sy'n derbyn plant sydd angen triniaeth neu ofal arbennig.

Mathau o ddarparwyr gofal maeth

Mae darparwyr gofal maeth yn cynnwys teulu a ffrindiau, awdurdodau lleol neu asiantaethau annibynnol, er enghraifft, mudiadau gwneud elw a gwirfoddol yn ogystal â gofalwyr maeth preifat. Awgryma'r gwaith ymchwil ar ofal teuluol – hynny yw, gofal a ddarperir gan deulu a ffrindiau ac eithrio rhieni biolegol – y gall gofalwyr teuluol wynebu problemau arbennig yn deillio o gynhaliaeth annigonol, anawsterau gyda chyllid, a chysylltiad problematig gyda rhieni naturiol. Gall y ffactorau hyn effeithio ar y deilliannau i blant a phobl ifanc.

Cyswllt gyda theuluoedd biolegol

Mae cysylltiad yn fater allweddol i blant a'u teuluoedd biolegol. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o blant eisiau cysylltiad o'r fath, ac mae ganddynt hawl iddo. Fodd bynnag, mae effaith cysylltiad ar ddeilliannau da yn fwy problematig nac a gredwyd ar un adeg ac, o dan rai amgylchiadau, gall fod yn gysylltiedig â chamdriniaeth a lleoliadau'n chwalu. Ceir peth tystiolaeth i awgrymu fod meddwl sensitif a chydymdeimladol gan weithwyr cymdeithasol a chynnwys gofalwyr maeth yn hollbwysig i'r gwaith o helpu plant i wneud synnwyr o'u perthnasau teuluol. Pan y ceir y nodweddion hynny, gallai ystod eang o drefniadau cyswllt fod yn llwyddiannus.

Rôl gweithwyr cymdeithasol

Mae rôl gweithwyr cymdeithasol mewn gofal maeth yn allweddol:

- wrth wneud arfarniadau proffesiynol am y math gorau o leoliad ar gyfer y plentyn, a sut y dylid ei reoli (er enghraifft, trefniadau cyswllt gyda theuluoedd biolegol);
- wrth recriwtio a chynnig cynhaliaeth a chyngor i ofalwyr maeth;
- wrth weithio'n uniongyrchol gyda phlant; ac

- ymyrryd pan fo'r berthynas rhwng y gofalwr maeth a'r plentyn yn dechrau gwaethygu.

Mae effaith llawer o'r gweithgarwch hwn felly ymhlyg mewn mesuriadau o ddeilliannau eraill, megis er enghraifft, effaith dod â chysylltiad i ben ar leoliad, ac mae'n anodd ei fesur ynddo'i hun. Dangosodd un astudiaeth fod gofalwyr maeth yn gwerthfawrogi gweithwyr cymdeithasol sy'n ddibynadwy, yn hawdd cael gafael arnynt, sy'n effeithlon yn mynd i'r afael â thaliadau a chwynion, sy'n ymateb i anghenion ac amgylchiadau'r teulu, sy'n mynd i'r afael ag anghenion a buddiannau unigol y plentyn ac sy'n rhoi llais i'r cynhalwyr maeth ble'n briodol.

Profiad bod yn yr ysgol

Er nad yw'r dystiolaeth ar y ffactorau sy'n helpu plant maeth i wneud yn dda yn yr ysgol wastad yn gadarn iawn, nid oes unrhyw amheuaeth fod yr ysgol yn faes allweddol iddyn nhw. Dylid gwneud popeth posib i sicrhau eu bod yn llwyddiannus a hapus yno, nad ydynt yn cael eu bwlio a'u bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y maen nhw'n eu mwynhau ac sy'n gallu'u helpu i feithrin eu hunan-barch. Gall rhieni maeth gynnig anogaeth trwy, er enghraifft, fynd i ddigwyddiadau a gynhelir yn yr ysgol. Mae cadw cysylltiad gyda seicolegydd addysg neu ag athrawon penodol sy'n gweithio gyda phlant er mwyn eu cael yn ôl i'r ysgol hefyd yn gallu llwyddo.

Pa blentyn i ba deulu maeth?

Mae ymchwilwyr ac ymarferwyr wedi defnyddio mesuriadau digon anffurfiol i benderfynu pa blentyn maeth fydd yn gwneud yn dda gyda pha ofalwr maeth. Yn ymarferol, mae ansawdd y dystiolaeth ymchwil ar baru plant a gofalwyr yn isel. Daethpwyd i ddau gasgliad cyffredinol:

- bod angen i awdurdodau lleol recriwtio gofalwyr byrdymor sy'n barod i dderbyn amrywiaeth eang o blant am gyfnodau gwahanol o amser; a
- bod gosod brodyr a chwiorydd gyda'i gilydd a phlant o leiafrifoedd ethnig gyda rhieni o leiafrifoedd ethnig yn iawn o ran egwyddor, ond y dylid parhau i ddefnyddio doethineb proffesiynol mewn sefyllfaoedd unigol.

Casgliad: egwyddorion sy'n sail i'r gwasanaethau a ddarperir

Mae'r dystiolaeth sydd ar gael am yr hyn sy'n gwneud i ofal maeth weithio'n dda neu'n wael yn cytuno â'r hyn a wyddom am yr hyn sy'n helpu plant i ddygymod yn dda â sefyllfaoedd anodd.

Mae astudiaethau dycnwch – y ffactorau sy'n galluogi plant i oroesi amgylchiadau anodd – yn hoelio'u sylw ar bwysigrwydd anian y plentyn; cael o leiaf un perthynas agos; teimlo'n hapus ac yn rhan o fywyd yr ysgol (ynghyd â'r cyfleoedd sy'n dod gyda'r ysgol); a'r cyfle i gael hoe o amgylchiadau cartref anodd, ac, o dan rai amgylchiadau, y cyfle i gael cychwyn o'r newydd. Dylai gofal maeth allu darparu'r cyfleoedd hyn.

Mae maethu llwyddiannus yn dibynnu ar allu sicrhau bod plant maeth yn cael y cyfleoedd i fyw gyda gofalwyr maeth gofalgar ac ymroddedig, eu bod yn hapus yn yr ysgol a'u bod – mae'n debyg – yn cael eu gwarchod rhag cysylltiadau teuluol a allai eu niweidio. Mae hynny'n cynnwys cynnal plant a phobl ifanc maeth yn y gwaith o ddewis deilliannau sy'n adlewyrchu eu dyheadau a'u dymuniadau eu hunain yn ogystal â gofalu bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i alluogi pobl ifanc i'w cyflawni.

Cynhaliwyd yr astudiaeth hon gan: Kate Wilson, Ian Sinclair, Claire Taylor, Andrew Pithouse a Clive Sellick ym Mhrifysgolion Nottingham, Caerefrog, Caerdydd a Dwyrain Anglia. Gellir cysylltu â Kate Wilson drwy e-bostio kate.wilson@nottingham.ac.uk

Social Care Institute for Excellence
Goldings House
2 Hay's Lane
Llundain SE1 2HB
Ffôn 020 7089 6840
Ffacs 020 7089 6841
Ffôn testun 020 7089 6893
www.scie.org.uk

Bydd fersiwn braille, ar dâp ac argraffiadau print bras ar gael ar gais.
Mae fersiwn lawn o'r Adolygiad Gwybodaeth ar gael ar wefan SCIE ac mewn print oddi wrth SCIE.